OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1815

## Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015

**Camau i alluogi gwneud dewisiadau deallus ynghylch taliadau uniongyrchol**

**4.**—(1) Pan fo awdurdod lleol—

(a) yn penderfynu y bydd yn diwallu anghenion A am ofal a chymorth, a

(b) yn dyfarnu bod gwneud taliadau uniongyrchol yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion A,

rhaid iddo ddarparu gwybodaeth i A i sicrhau bod A yn gallu gwneud dewis deallus ynghylch pa un a yw'n cydsynio bod taliadau yn cael eu gwneud ai peidio.

(2) Rhaid i'r wybodaeth y mae'r awdurdod lleol yn ei darparu gynnwys—

(a) sut y mae'n bwriadu diwallu'r anghenion hynny os na chaiff yr anghenion eu diwallu drwy wneud taliadau uniongyrchol;

(b) cadarnhad ynghylch a yw taliadau uniongyrchol, ym marn yr awdurdod lleol, yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion A(**1**);

(c) gwybodaeth am natur a diben taliadau uniongyrchol;

(d) gwybodaeth am ffyrdd gwahanol o reoli taliadau uniongyrchol;

(e) swm unrhyw daliadau y byddai gan y person hawlogaeth iddynt os oedd dewis wedi ei wneud i gael taliad uniongyrchol a sut y câi swm y taliad ei gyfrifo;

(f) gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael i gynorthwyo pobl i reoli taliadau uniongyrchol pa un ai oddi wrth yr awdurdod lleol neu oddi wrth unrhyw berson arall;

(g) gwybodaeth am effaith asesiad ariannol ac, yn achos yr anghenion o dan sylw, a fyddai unrhyw daliadau uniongyrchol yn debyg o gael eu gwneud fel taliadau gros neu daliadau net.

(3) Pan fo A yn oedolyn nad oes ganddo alluedd, rhaid i'r awdurdod lleol, yn lle hynny, ddarparu'r wybodaeth i unrhyw berson a awdurdodir o dan Ddeddf Galluedd Meddwl 2005(**2**) i wneud penderfyniadau ynghylch A.

(4) Pan fo A yn blentyn 16 neu 17 oed nad oes ganddo alluedd, neu'n blentyn o dan 16 oed nad oes ganddo ddealltwriaeth ddigonol i wneud penderfyniad deallus, rhaid i'r awdurdod lleol, yn lle hynny, ddarparu'r wybodaeth i berson sydd â chyfrifoldeb rhiant dros A.

(**1**) Un o'r amodau ar gyfer sbarduno gofyniad neu ddisgresiwn i wneud taliadau uniongyrchol i ddiwallu angen person am ofal a chymorth yw bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni bod taliadau uniongyrchol yn ffordd briodol o ddiwallu anghenion y person – *gweler* adrannau 50(3)(c)(i), 50(4)(d)(i), 51(5)(a) a 52(5)(a) o'r Ddeddf.

(**2**) 2005 p. 9.